CYNGOR **GWYNEDD** COUNCIL



# CYNLLLUN CYFLWYNO GWASANAETH

# DIOGELWCH BWYD

# 2009-10

www.gwynedd.gov.uk

## CYNNWYS

**DIFFINIADAU.......... 3**
**1.0 CYFLWYNIAD .......... 4**
**2.0 NODAU AC AMCANION Y GWASANAETH.......... 6**
2.1 Nodau.......... 6
2.2 Amcanion .......... 6
2.3 Cysylltiadau ag Amcanion Corfforaethol .......... 6
**3.0 CEFNDIR .......... 9**
3.1 Proffil Gwynedd.......... 9
3.2 Strwythur Trefniadaethol a Llinellau Adrodd .......... 9
3.3 Cwmpas yr Adain Diogelwch Bwyd .......... 10
3.4 Partneriaid/Gwasanaethau Allanol Arbenigol.......... 11
3.5 Lleoliad Gwasanaethau.......... 11
3.6 Galwadau ar yr Adain Diogelwch Bwyd.......... 12
3.7 Polisi Gorfodi.......... 13
**4.0 CYFLWYNO'R GWASANAETH.......... 14**
4.1 Ymyrraethau Eiddo Bwyd.......... 14
4.2 Cwynion ynghylch Bwyd.......... 17
4.3 Cyngor i Fusnesau .......... 17
4.4 Samplo ac Ymyrraeth Bwyd .......... 17
4.5 Rheoli Ymchwiliadau i mewn i Achosion Brig ac Afiechydon Heintus sy'n Gysylltiedig â Bwyd.......... 18
4.6 Digwyddiadau Diogelwch Bwyd.......... 18
4.7 Cyswllt gyda Sefydliadau Eraill .......... 18
4.8 Hyrwyddo Diogelwch Bwyd .......... 19
4.9 Hyfforddiant Diogelwch Bwyd i Swyddogion .......... 19
4.10 Camau Gweithredu Ffurfiol Diogelwch Bwyd .......... 19
4.11 '*Safer Food Better Business'*.......... 19
4.12 Busnesau Newydd .......... 20
**5.0 ADNODDAU.......... 21**
5.1 Dyraniad Ariannol.......... 21
5.2 Lefelau Staffio Cyfredol.......... 21
**6.0 ASESU ANSAWDD .......... 22**
**7.0 ADOLYGU A MONITRO .......... 23**
7.1 Adolygu yn erbyn y Cynllun Gwasanaeth.......... 23
7.2 Cyflawniadau Allweddol y Gwasanaeth 2008/09 .......... 24
7.3 Meysydd i'w Gwella 2009/10.......... 25

## DIFFINIADAU

| | | |
|---|---|---|
| CEFAS | - | Canolfan yr Amgylchedd, Pysgodfeydd a Gwyddor Acwafeithrin |
| CIEH | - | Sefydliad Siartredig Iechyd yr Amgylchedd |
| CPD | - | Datblygiad Proffesiynol Parhaus |
| CSIW | - | Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru |
| DPPW | - | Cyfarwyddwyr Gwarchod y Cyhoedd Cymru |
| FLARE | - | System bas data Gwarchod y Cyhoedd |
| FSA | - | Asiantaeth Safonau Bwyd |
| FTE | - | Cyfwerth ag amser llawn |
| ALl | - | Awdurdodau Lleol |
| LACORS | - | Swyddfa Cydlynu Awdurdodau Lleol ar Wasanaethau Rheoli |
| MHS | - | Gwasanaeth Hylendid Cig |
| NPHSW | - | Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol Cymru |
| NWDSLG | - | Grŵp Cyswllt Pysgod Cregyn Gogledd Cymru a Glannau Dyfrdwy |
| NWFSTP | - | Panel Technegol Diogelwch Bwyd Gogledd Cymru |
| PHLS | - | Gwasanaeth Labordy Iechyd Cyhoeddus |
| SFBB | - | *Safer Food Better Business* |
| SME | - | Mentrau Bach i Ganolig |
| DU | - | Y Deyrnas Unedig |
| WFMF | - | Fforwm Microbiolegol Bwyd Cymru |
| WFFU | - | Uned Twyll Bwyd Cymru |
| WHoEH | - | Penaethiaid Iechyd yr Amgylchedd Cymru |
| WHoTS | - | Penaethiaid Safonau Masnach Cymru |
| WLGA | - | Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru |
| WW | - | Dŵr Cymru |

# CYNGOR GWYNEDD

## CYNLLUN GWASANAETH DIOGELWCH BWYD 2009-10

## 1.0 Cyflwyniad

Mae'r cynllun cyflwyno gwasanaeth hwn yn rhoi manylion y gwasanaeth gorfodi diogelwch bwyd a fydd yn cael ei gyflwyno yn 2009/10 ar y cyd gan Adain Hylendid Bwyd a Safonau Bwyd Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd Cyngor Gwynedd.

Mae'r Asiantaeth Safonau Bwyd (FSA), fel rhan o'i chytundeb fframwaith diogelwch bwyd cenedlaethol, yn ei gwneud hi'n ofynnol i bob awdurdod lleol baratoi cynllun cyflwyno gwasanaeth blynyddol. Mae'r cynllun yn adlewyrchu'r gwaith sy'n ofynnol i awdurdodau bwyd ei wneud gan yr FSA, dan ofynion Deddf Safonau Bwyd 1999, a'r cytundeb fframwaith ar orfodi awdurdodau lleol.

Mae'r cynllun yn ceisio sicrhau bod yr holl flaenoriaethau a safonau cenedlaethol yn cael eu cyflwyno'n lleol ac yn rhoi ymdriniaeth gytbwys o orfodi diogelwch bwyd lleol.

Gwneir hyn drwy nid yn unig gyfeirio adnoddau tuag at y broses arolygu sydd wedi'i rhaglennu, ond hefyd drwy sicrhau y gwneir darpariaeth ddigonol er mwyn rhoi sylw i gwynion ynghylch bwyd, hysbysiadau gwenwyn bwyd, cyngor i fusnesau a hefyd y gallu i ddilyn i fyny ar feysydd gwaith sy'n cael eu gyrru gan gudd-wybodaeth megis samplo, arolygon wedi'u targedu, ymyrraethau ymatebol eraill a gwaith ymgyrchu.

Mae Cyngor Gwynedd yn gyfrifol am orfodi diogelwch bwyd mewn 2018 eiddo bwyd yn y Sir. Mae hyn yn cynnwys eiddo ym mhob cam o'r gadwyn fwyd yn amrywio o gynhyrchwyr bwyd ar ffermydd, gweithgynhyrchwyr a phroseswyr bwyd i eiddo gwerthu bwyd a thai bwyta.

Ar gyfer 2009/10 bydd prif ffocws swyddogaeth gwasanaeth gorfodaeth diogelwch bwyd yn y meysydd a ganlyn:

- Rhaglen flynyddol o arolygiadau a gorfodi yn unol â gofynion statudol, codau ymarfer a chanllawiau.
- Rhaglen samplo blynyddol i gefnogi'r rhaglen ymyrraeth a gwaith ymchwiliol arall.
- Ymchwilio i mewn i gwynion ynghylch bwyd ac eiddo bwyd, a'r holl achosion brig a digwyddiadau o salwch sy'n ymwneud â bwyd.
- Gweithredu fel "awdurdod tarddu" i rai busnesau bwyd penodol sydd wedi'u lleoli yng Ngwynedd ac ymgymryd ag unrhyw ymholiadau awdurdod tarddu y cyfeiriwyd atynt gan awdurdodau neu asiantaethau eraill.
- Cefnogi'r rhaglen arolygu flynyddol gyda chyngor hyrwyddo wedi'i dargedu a mentrau addysgiadol ynghyd â darparu gwybodaeth a chyngor ar ddiogelwch bwyd a materion cysylltiedig i fusnesau a defnyddwyr bwyd, a chydlynu hyfforddiant.

Ar gyfer 2009/10, mae'r meysydd datblygu a gwella'r gwasanaeth a ganlyn wedi'u nodi:

- Cynnal perfformiad ymyrraeth hylendid bwyd a ceisio cario ymyrraethau allan

mewn 100% o fusnesau risg uchel a busnesau risg eraill yn ôl eu trefn

- Cynnal perfformiad ymyrraeth safonau bwyd a ceisio cario allan ymyrraethau mewn 100% o fusnesau wedi eu graddio fel risg uchel ar gyfer safonau bwyd a 50% o fusnesau sydd wedi eu graddio fel risg canolig sydd yn agored ar gyfer ymyrraethau safonau bwyd.
- Parhau â'r cynnydd sydd wedi'i wneud mewn busnesau bwyd wrth weithredu rheolaeth diogelwch bwyd, yn benodol *'Safer Food Better Business'. (SFBB)*
- Ymgymryd ag arolwg boddhad cwsmer ar gyfer meysydd gwasanaeth bwyd perthnasol.
- Cyflwyno cynllun Sgoriau ar Ddrysau' ar gyfer eiddo bwyd yn y Sir, gan fabwysiadu cynllun yr FSA
- Sefydlu cyswllt efo busnesau bwyd newydd yn fuan ym mywyd y busnesau
- Annog cynhyrchwyr sylfaenol i fabwysiadu safonau uchel o ymarferion hylendid bwyd.
- Parhau i ddatblygu tudalennau gwe'r Cyngor.
- Datblygu a gwella rhaglenni cydweithio yn fewnol ac efo asiantaethau allanol.

## 2.0 Amcanion y Gwasanaeth

### 2.1 Nod

Mae Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd yn ymrwymedig i sicrhau bod bwyd a diod a bwriedir ei gwerthu i bobl ac sy'n cael eu cynhyrchu, eu storio, eu dosbarthu, eu trin neu eu treulio yn y Sir heb unrhyw risg i iechyd a diogelwch y defnyddiwr.

Bydd staff yn mabwysiadu dull i orfodi yn seiliedig ar asesiad o'r risg i iechyd cyhoeddus a bydd yn cynnwys archwilio achosion o wenwyn bwyd a chwynion ynglŷn â bwyd ynghyd ag archwilio eiddo bwyd.

Mae Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd wedi mabwysiadu'r concordat gorfodi a bydd staff yn ymgymryd â gweithgareddau yn y cynllun gwasanaeth hwn yn unol â'r concordat hwnnw a pholisi gorfodi gwarchod y cyhoedd.

Ystyrir hefyd ganllawiau sy'n gynwysedig yng Nghod Ymarfer Cyfraith Bwyd (Cymru) 2008 ac i ganllawiau gan gyrff cydnabyddedig megis yr FSA a Chydlynwyr Awdurdodau Lleol ar Wasanaethau Rheolaethol (LACRÓS).

### 2.2 Amcanion

Dyma amcanion yr adain diogelwch bwyd:

- Ymgymryd â rhaglen flynyddol o arolygiadau a gorfodi hylendid a safonau bwyd yn unol â gofynion statudol, Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd (Cymru) 2008 a chanllawiau. Yn ddibynnol ar argaeledd swyddogion cymwys, fe fydd arolygiadau o'r fath yn cael eu cynnal i gyd-fynd efo arolygiadau fydd yn cael eu cynnal oherwydd swyddogaethau statudol eraill
- Cefnogi'r rhaglen ymyrraeth flynyddol gyda rhaglen samplo bwyd flynyddol gyda golwg ar gyfansoddiad, labelu a safonau microbiolegol
- Ymchwilio i mewn i gwynion a chymryd y camau priodol yn unol â Chod Ymarfer Cyfraith Bwyd (Cymru) 2008 a chanllawiau
- Gweithredu fel "awdurdod tarddu" i rai busnesau bwyd penodol sydd wedi'u lleoli yng Ngwynedd ac ymateb i ymholiadau awdurdodau tarddu a gyfeirir gan awdurdodau lleol ac asiantaethau eraill.
- Cefnogi busnesau bwyd a defnyddwyr gyda chyngor hyrwyddo wedi'i dargedu a mentrau addysgiadol ynghyd â darparu gwybodaeth a chyngor ar ddiogelwch bwyd a materion cysylltiedig i fusnesau a defnyddwyr bwyd, a chydlynu hyfforddiant.

### 2.3 Cysylltiadau ag Amcanion Corfforaethol

Dyma'r blaenoriaethau trawsbynciol ar gyfer yr Awdurdod sydd wedi'u tynnu o Weledigaeth a Gwerthoedd y Cyngor. Dyma'r amcanion strategol:

***a)*** ***Creu cyfleoedd i alluogi pobl i gyflawni eu llawn botensial yn y gwaith ac mewn bywyd personol a chymdeithasol.***

***b)*** ***Cyfrannu tuag at greu economi cystadleuol, anturus a chynaliadwy gydag amrywiaeth o gyfleoedd gwaith.***

c) ***Hyrwyddo gwell iechyd, gofal a lles i unigolion, teuluoedd a chymunedau.***

d) ***Hyrwyddo cymunedau gweithgar, diogel a chynaliadwy drwy ddarparu tai, cyfleusterau a gwasanaethau addas.***

e) ***Gwarchod treftadaeth, hyrwyddo diwylliant yr ardal, a hyrwyddo defnydd yr iaith Gymraeg.***

f) ***Gwarchod a gwella amgylchedd naturiol ac adeiledig y Sir, a chyfrannu tuag at ddiogelu'r amgylchedd byd-eang.***

Mae'r gwasanaeth diogelwch bwyd yn ymestyn yr amcanion hyn ac yn cyfrannu tuag atynt yn y ffyrdd a ganlyn:-

**a)** ***Creu cyfleoedd i alluogi pobl i gyflawni eu llawn botensial yn y gwaith ac mewn bywyd personol a chymdeithasol*** – Mae'r gwasanaeth diogelwch bwyd yn ceisio gwarchod iechyd a lles y bobl sy'n bwyta bwydydd yng Ngwynedd a'r rhai sydd yn bwyta bwydydd sydd wedi'u gweithgynhyrchu yng Ngwynedd. Yn ogystal a diogelu preswylwyr Gwynedd, mae diogelu y cyhoedd sy'n ymweld â Gwynedd yn hanfodol er mwyn cynnal a gwella enw da'r ardal fel cyrchfan i dwristiaid.

***b)*** ***Cyfrannu tuag at greu economi cystadleuol, anturus a chynaliadwy gydag amrywiaeth o gyfleoedd gwaith*** – Mae cynhyrchu, prosesu a gwerthu bwyd yn rhan arwyddocaol o economi Gwynedd ac yn darparu cyfleon cyflogaeth sylweddol o fewn y Sir. Mae Gwynedd yn gynhyrchydd sylfaenol o fwyd, gyda nifer o gynhyrchwyr bwyd a busnesau arlwyaeth, nifer ohonynt efo cysylltiad a'r diwydiant twristiaeth ynghyd ac ystod eang o adwerthwyr bwyd. Mae'r gwasanaeth diogelwch bwyd yn darparu cyngor a chymorth am ddim i'r busnesau yma efo'r nod o sicrhau eu bod yn bodloni anghenion y cwsmeriaid, darparu cyflogaeth yn lleol ac yn cynhyrchu enillion digonol i'w buddsoddwyr. Mae diogelu iechyd a lles a hyrwyddo ffordd iach o fyw yn brif gatalydd ar gyfer cynnal gweithlu iach a cynhyrchiol. Mae monitro a chynghori ar safonau rheoleiddio yn cynorthwyo wrth gynnal cystadleuaeth wastad ar gyfer economi cynaliadwy.

***c)*** ***Hyrwyddo gwell iechyd, gofal a lles i unigolion, teuluoedd a chymunedau*** **-** Mae diogelwch bwyd yn faes allweddol sy'n hanfodol er mwyn gwella a chynnal gofal iechyd a lles unigolion, teuluoedd a chymunedau. Heblaw am gynnal iechyd, mae bwyta bwyd da hefyd yn cynhyrchu teimlad o fudd ac yn darparu difyrrwch

***d)*** ***Hyrwyddo cymunedau gweithgar, diogel a chynaliadwy drwy ddarparu tai, cyfleusterau a gwasanaethau addas*** **–** Bwriad y gwasanaeth diogelwch bwyd yw i hyrwyddo cymunedau gweithredol drwy sicrhau fod preswylwyr yn cael mynediad i fwyd iach a chyfleon cyflogaeth sydd yn gysylltiedig a cynhyrchu, prosesu, dosbarthiad a gwerthu bwyd. Y nod yw sicrhau fod y bwyd sydd yn cael ei gynhyrchu a'i fwyta yn saff a fod y darpariaeth yn cael ei gario allan mewn ffordd cynaliadwy.

e) ***Gwarchod treftadaeth, hyrwyddo diwylliant yr ardal, a hyrwyddo defnydd yr iaith Gymraeg –*** Mae gwaith yr adain diogelwch bwyd yn cefnogi cynhyrchu bwyd yn lleol yn y Sir sy'n bennaf wledig ble mae amaethyddiaeth a physgodfeydd yn sector bwysig o'r economi. Mae ansawdd deunydd bwyd ac eiddo bwyd yn ffactorau hanfodol er mwyn cynnal Gwynedd fel cyrchfan pwysig i dwristiaid, gwarchod treftadaeth a hyrwyddo diwylliant yr ardal a chynnal gallu'r ardal i gystadlu mewn marchnad fyd-eang. Mae'r adain yn darparu gwasanaeth dwyieithog bob amser ac yn nhermau holl agweddau diogelwch bwyd mae hyn yn hanfodol gan fod 70.19% o boblogaeth Gwynedd yn siarad Cymraeg.


f) ***Gwarchod a gwella amgylchedd naturiol ac adeiledig y Sir, a chyfrannu tuag at ddiogelu'r amgylchedd byd-eang –*** Cynhelir cymunedau hyderus gyda hunaniaeth ieithyddol a diwylliannol gydlynol gan boblogaeth iach ffyniannus sy'n rhydd rhag effeithiau salwch ac afiechydon.

# 3.0 Cefndir

## 3.1 Proffil Gwynedd

Mae Gwynedd wedi'i leoli yng ngogledd-orllewin Cymru.  Hi yw'r ail Sir fwyaf yng Nghymru gan gyfrif am 12.26% o gyfanswm arwynebedd Cymru. Gan gynnwys ardal o 2,548 cilometr sgwâr, mae Gwynedd yn ymestyn o Abergwyngregyn yn y gogledd i Aberdyfi yn y de, gyda phellter ar y ffordd o 130 cilometr. Mae Gwynedd yn ymestyn o Uwchmynydd yn y gorllewin i Landderfel yn y dwyrain, pellter ar y ffordd o 103 cilometr. Efo pellter o 301 cilometr, Gwynedd sydd â'r pellter hiraf o arfordir o'r holl Awdurdodau Unedig yng Nghymru. Y prif aneddleoedd yng Ngwynedd yw Caernarfon, Bangor, Porthmadog a Dolgellau.

Cofnodwyd poblogaeth Gwynedd yn 116,843 yng Nghyfrifiad Poblogaeth 2001 a 117,985 yn Amcangyfrifon Canol Blwyddyn 2005. Mae crynhoad o'r boblogaeth yn byw yng ngogledd y Sir ym Mangor, Caernarfon a'r trefi a'r pentrefi sydd o'u cwmpas.




## 3.2 Strwythur Trefniadaethol a Llinellau Adrodd

Mae'r adain diogelwch bwyd wedi'i lleoli o fewn y Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd or Adran Rheoleiddio o Gyngor Gwynedd. Mae'r adeiniau diogelwch bwyd yn adrodd i'r pwyllgor trwyddedu ar yr holl faterion diogelwch bwyd.

Mae'r Adain Diogelwch Bwyd yn gorwedd o fewn strwythur yr awdurdod fel a ganlyn:

Pennaeth Gwasanaeth Adran Rheolieddio
▼
Uwch Reolwr Gwarchod y Cyhoedd
▼
Rheolwyr Gwarchod y Cyhoedd (Bwyd ac Iechyd a Diogelwch/Safonau Masnach)
▼
Uwch Swyddogion Iechyd yr Amgylchedd/Safonau Masnach, Swyddogion Iechyd yr Amgylchedd/Safonau Masnach, Swyddogion Diogelwch Bwyd, Swyddogion Technegol a Swyddog Samplo Bwyd.

### 3.3 Cwmpas yr Adain Diogelwch Bwyd

Mae cwmpas yr adain diogelwch bwyd fel a ganlyn:

- Sefydlu a chynnal cofrestr ddiweddar o'r holl eiddo bwyd yn y Sir.

- Ymyrraethau cynllundeig ar gyfer eiddo bwyd - Mae pob eiddo bwyd yn cael ymyriad yn rheolaidd. Rhaglennir amlder ymyriadau bob eiddo bwyd yn unol â'r system graddio risg a ragnodir yng Nghod Ymarfer Cyfraith Bwyd (Cymru) 2008 sy'n ystyried peryglon posib, lefel cydymffurfio a hyder mewn systemau rheoli rheolaethol. Mae swyddogion yn cynghori ar arfer da ac yn sicrhau y cydymffurfir â gofynion cyfreithiol.

- Ymweliadau Dilynol/Ail ymweliadau - Os gofynnir i weithredwr busnes bwyd ymgymryd â gwaith er mwyn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth diogelwch bwyd, mae'n bosib yr ymgymerir ag ail ymweliad (ymyriad dilynol) ar ôl y dyddiad a nodwyd er mwyn cydymffurfio.

- Ymchwilio i mewn i Gwynion - Mae'r adain yn ymateb i'r holl gwynion ynghylch eiddo bwyd a bwyd a brynir o fewn ardal Cyngor Gwynedd. Ymchwilir i mewn i bob cwyn er mwyn pennu pa gamau gorfodi sy'n briodol ac er mwyn sicrhau y cymerir rhagofalon i osgoi ailadrodd. Mae hyn yn aml yn golygu cysylltu â chwmnïau gweithgynhyrchu ac awdurdodau lleol eraill.

- Adnabod busnesau bwyd newydd yn fuan ym mywyd y busnesau ac ymweld a'r eiddo i ymgymryd a ymyrraethau a darparu cyngor ac arweiniad

- Ymchwilio i mewn i Salwch a Gludir mewn Bwyd – Derbynnir hysbysiadau o achosion o wenwyn bwyd gan feddygon teulu, Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol Cymru (NPHSW) a'u gwasanaethau labordy. Ymchwilir i mewn i bob hysbysiad a chymerir camau priodol er mwyn osgoi lledaenu'r haint.

- Hyrwyddo ac Addysg Hylendid Bwyd – Fel rhan o ymrwymiad y gwasanaeth i hyrwyddo iechyd cyhoeddus, mae'r gwasanaeth yn ymgymryd ag amrywiol gynlluniau diogelwch bwyd. Mae'r rhain wedi cynnwys seminarau i fusnesau lleol, wythnos diogelwch bwyd, darparu cylchlythyrau a darparu cyngor a chymorth i fusnesau ar adeg ymyrraeth ac ar gais ganddynt.

- Rhybuddion Bwyd, Rhybyddion Alergedd a Digwyddiadau Bwyd – Pan fo rhybuddion bwyd ac alergedd yn cael eu rhyddhau gan yr FSA yng nghyswllt deunyddiau bwyd penodol a phan fo angen, mae'r adain yn cymryd yr holl gamau priodol i sicrhau bod y bwydydd yn cael eu tynnu oddi ar y silffoedd yn y Sir.

- Eiddo Bwyd wedi ei Cymeradwyo – Mae ar rai gweithrediadau bwyd penodol angen cymeradwyaeth ymlaen llaw gan yr awdurdod lleol. Yng Ngwynedd, mae'r rhain yn cynnwys cynnyrch llaeth, cynnyrch cig, cynnyrch pysgod, storfeydd oer ac eiddo puro pysgod cregyn. Bydd eiddo yn cael eu harolygu cyn rhyddhau cymeradwyaethau a byddant yn cael eu monitro'n rheolaidd wedi hynny i sicrhau y parheir i gydymffurfio â'r gofynion cyfreithiol.

- Samplo Bwyd – Ymgymerir â samplo er mwyn monitro safonau diogelwch bwyd yn ystod ymyrraeth ac fel rhan o raglenni samplo bwyd microbiolegol cenedlaethol a lleol.

- Samplo Pysgod Cregyn – Ymgymerir â samplo er mwyn monitro statws hylendid ardaloedd cynhyrchu pysgod cregyn dynodedig.

- Bwyd wedi ei fewnforio - Ymchwilio honiadau neu amgylchiadau sydd yn dynodi efallai bod bwyd sydd wedi ei fewnforio wedi'i halogi neu wedi cael ei fewnforio'n anghyfreithlon a chymryd y camau angenrheidiol.

- Cyflenwad Dwr Preifat – Mae samplo yn cael ei gyflawni er mwyn monitro ansawdd cyflenwadau dŵr preifat fel rhan o raglenni samplo.

- Gwasanaethau Eraill – Disgwylir i swyddogion diogelwch bwyd roi sylw i faterion diogelwch galwedigaethol sy'n codi yn ystod ymyrraethau diogelwch bwyd. Hefyd, ble bo angen, maent yn ymchwilio i mewn i ddigwyddiadau a gludir gan ddŵr ac afiechydon heintus oni bai am wenwyn bwyd; yn rhoi sylwadau ar geisiadau am drwyddedau eiddo dan Ddeddf Trwyddedu 2003 ac ar geisiadau cynllunio a rheolaeth eiddo ynghylch eiddo bwyd.

### 3.4 Partneriaid/Gwasanaethau Allanol Arbenigol

| | |
|---|---|
| Gwasanaethau Dadansoddi Bwyd | Eurofins Laboratories Ltd |
| Archwiliwr Bwyd | Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol Cymru |
| Swyddog Priodol | Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol Cymru |

### 3.5 Lleoliad Gwasanaethau

Cyflwynir y gwasanaeth o'r tair swyddfa ardal sef Swyddfa Ardal Arfon, Caernarfon; Swyddfa Ardal Dwyfor, Pwllheli a Swyddfa Ardal Meirionnydd, Dolgellau. Oriau agor y swyddfeydd yw dydd Llun i ddydd Gwener 09:00 - 17:00. Ymgymerir ag ymyrraethau y tu hwnt i oriau os nad yw eiddo yn masnachu yn ystod y dydd. Y polisi ar gyfer ymyrraethau bwyd, oni bai am mewn amgylchiadau eithriadol, yw

iddynt gael eu gwneud heb rybudd er mwyn gallu arsylwi gwir weithrediadau'r busnes. Ceir hefyd wasanaeth y tu hwnt i oriau ar gyfer argyfyngau.

### 3.6 Galwadau ar yr Adain Diogelwch Bwyd

Mae gan Wynedd gymysgedd o eiddo gweithgynhyrchu, manwerthu ac arlwyo. Arlwyo a manwerthu yw'r prif sectorau. Mae'r busnesau yn fentrau o faint bach i ganolig (SME) yn bennaf.

Ar y 1 Ebrill 2009 rydym wedi adnabod bod Cyngor Gwynedd yn gyfrifol am orfodi diogelwch bwyd mewn 2018 eiddo bwyd yng Ngwynedd.

Mae'r rhaglen asesu risg ar gyfer diogelwch bwyd wedi'i nodi yng nghynllun graddio ymyrraethau o fewn Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd (Cymru) 2008 ac mae'r meini prawf yn nodi y bydd yr holl eiddo bwyd yn amodol ar y raddfa ymyrraeth ond mae Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd (Cymru) 2008 yn caniatáu i ddulliau gorfodi eraill gael eu defnyddio gyda'r eiddo risg isaf.

| | | | **Amcangyfrif o nifer yr eiddo (Fel ar 01/04/09)** |
|---|---|---|---|
| | Cynhyrchwyr Primaidd | | 40 |
| | Cynhyrchwyr a Pacwyr | | 93 |
| | Mewnforwyr/Allforwyr | | 0 |
| | Dosbarthwyr a Cludwyr | | 20 |
| Eiddo | Manwerthwyr | | 470 |
| | Tai Bwyta ac Arlwywyr | | 1395 |
| | | **Cyfanswm** | **2018** |
| O'r rhain: | Eiddo wedi'u Cymeradwyo | | 14 |

Mae'r ffactorau sy'n debygol o gael effaith ar gyflwyniad gwasanaeth eleni yn cynnwys:-

- Sgoriau ar Ddrysau - Gweithredu system sgoriau ar ddrysau ledled y Sir. Mae'r amserlen yn ddibynnol ar bryd y bydd yn cael ei gyflwyno gan FSA Cymru.
- SFBB – Parhau â chyflwyno SFBB o fewn busnesau bwyd.
- Digwyddiadau Tymhorol e.e. Wakestock, Gŵyl y Faenol – Ymyrraethau rhagweithiol ac ymatebol.
- Gofynion cymhwysedd a hyfforddiant i swyddogion.

### 3.7 Polisi Gorfodi

Mae'r adain diogelwch bwyd wedi mabwysiadu concordat gorfodi'r llywodraeth sy'n golygu ei bod wedi'i hymrwymo i orfodi'r gyfraith sy'n ymwneud â diogelwch bwyd yn agored ac yn deg. Mae'r polisi gorfodi gwarchod y cyhoedd wedi'i gymeradwyo gan Bwyllgor (28 Chwefror 2002) ac mae'n unol â'r egwyddorion sydd wedi'u gosod yn y concordat gorfodi.

Cewch hyd i'r polisi gorfodi ar dudalennau gwe'r adain diogelwch bwyd neu gellir cael copi papur o'r swyddfeydd ardal. Bydd penderfyniadau gorfodi yn cael eu

dogfennu a’u monitro i arddangos y cydymffurfir â’r polisi. Yn ogystal â hyn mae trefnau cynhwysfawr ar gael i sicrhau cysondeb y gwasanaeth.

## 4.0 Cyflwyno'r Gwasanaeth

### 4.1 Ymyrraethau Eiddo Bwyd

#### 4.1.1 Ymyrraethau Hylendid Bwyd

Mae cyflwyniad o God Ymarfer Cyfraith Bwyd (Cymru) 2008 wedi darparu awdurdodau bwyd efo'r opsiwn o weithredu gwahanol fathau o ymyrraethau mewn sefyllfaoedd penodol oedd cynt yn gyfun dim ond i ymyrraeth arolwg. Mae'r gyfres o wahanol fathau o ymyrraethau yn darparu awdurdodau bwyd efo'r rhyddid i dargedu busnesau mewn ffyrdd amgen yn hytrach na'r system ymyrraeth arolwg yn unig oedd yn bodoli cynt.

Mae ymyrraethau yn cael eu diffinio yn y côd fel ymarferion sydd wedi eu llunio i fonitro, cefnogi a chynyddu cydymffurfiaeth o fewn sefydliadau bwyd, mae rhain yn cynnwys, ond ddim yn gyfun i, "rheolaeth swyddogol" sydd wedi ei ddiffinio yn Erthygl 2(1) o Rheoliad GE 882/2004.

Mae'r ymyrraethau rheolaeth swyddogol gall gael eu defnyddio yn cynnwys archwiliadau, archwiliadau rhannol, awdit, ymweliadau gwyliadwriaeth, ymweliadau gwiriad, ymweliadau monitro a ymweliadau samplo ble mae dadansoddiad/archwiliad yn cael ei gario allan gan labordy swyddogol. Ble mae sefyllfaoedd yn caniatáu ac yn enwedig mewn eiddo risg isel gall ymyrraethau eraill sydd ddim yn rheolaeth swyddogol gael eu defnyddio, mae rhain yn cynnwys addysg, cyngor, hyfforddi a casglu gwybodaeth.

Pan yn penderfynu pa fath o ymyrraeth dylai gael ei ddefnyddio dylai ystyriaeth gael ei roi bob amser i anghenion Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd (Cymru) 2008. Mae'r cod yn nodi y lleiafrif amlder ymyrraeth ar gyfer categorïau penodol o eiddo a'r math o ymyrraethau efallai fydd yn briodol, sydd fel yr isod:

| | RHEOLAETH SWYDDOGOL | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | IA | | | | | | | NA | | |
| **Categori risg busnes** | **I** | **Pi** | **A** | **M** | **S** | **V** | **Sa** | **E** | **In** | **Lleiafrif Amlder Ymyrraeth** |
| A/B – FH* | X | X | X | | | | | | | 6 Misol - A<br>12 Misol - B |
| C – FH* | X | X | X | | | | | | | 18 Misol |
| C – FH*<br>*'Broadly Compliant'*[1] | X | X | X | X | X | X | X | | | 18 Misol |
| D* | X | X | X | X | X | X | X | X | X | 24 Misol |
| E – FH* | STRATEGAETH GORFODAETH ARALL<br>POB 3 BLYNEDD | | | | | | | | | |

**Allwedd**
* - Diogelwch Bwyd;
[1] - Eiddo sydd yn gallu dangos, ac wedi cael eu hasesu fel, yn cael amodau da, systemau a rheolaeth sydd yn sgorio </= 10 yn y system graddio (e.e. adeilad da)
I – Archwiliad
Pi – Archwiliad rhannol

A – Awdit
M – Monitro
S – Gwyliadwriaeth
V – Gwiriad
Sa – Samplo
E – Addysg, Cyngor a Hyfforddi
In – Gwybodaeth, Casglu Gwybodaeth a Samplo pan ddim yn Rheolaeth Swyddogol

Y strategaeth ymyrraeth fydd yn cael ei gweithredu yn Gwynedd ar gyfer 2009/10 yw bydd pob eiddo sydd angen cael ymyrraeth fel yr angen yn y cynllun graddio ymyrraeth eiddo bwyd yn cael o leiaf un ymyrraeth archwilio ac wedyn unrhyw fath o ymyrraeth fel fydd yn angenrheidiol ar ddisgresiwn y swyddog archwilio awdurdodedig gan gymryd i ystyriaeth anghenion Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd (Cymru) 2008.

Mae penderfyniad wedi ei wneud y bydd pob eiddo yn cael o leiaf un archwiliad er mwyn gweithredu rhaglen sgoriau ar ddrysau a fydd yn cael ei weithredu yng Ngwynedd yn 2009/10 fel rhan o system cenedlaethol yr FSA ar y rhaglen sgoriau ar ddrysau.

Mae Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd (Cymru) 2008 yn amodi y gall sgôr cynllun graddio ymyrraeth ddim ond cael ei newid yn dilyn ymyrraeth archwilio, felly buasai ymgymryd a unrhyw ymyrraeth arall yn rhwystro gweithrediad rhaglen sgoriau ar ddrysau yng Ngwynedd oherwydd fod y system sgoriau ar ddrysau wedi ei selio ar system sgorio cynllun graddio ymyrraeth sefydliadau bwyd.

Polisi adain diogelwch bwyd yw i gario allan rhaglen ymyrraethau hylendid bwyd mewn perthynas a lleiafrif amlder archwiliadau sydd wedi ei amlinellu yn cynllun graddio ymyrraeth sefydliadau bwyd fel soniwyd uchod. Mae’r ymyrraethau yma i gyd wedi eu blaenoriaethu mewn perthynas a risgiau diogelwch bwyd yn yr eiddo. Mae hyn yn cael ei asesu drwy gysidro natur y bwydydd a drafodir, y safonau sydd yn cael eu cynnal, a safon y rheolaeth o fewn y busnes bwyd.

Mae’r tabl isod yn dangos yr eiddo fydd yn atebol i ymyrraeth yn y flwyddyn 2009/10. Mae’r ffigyrau yn cynnwys eiddo sydd wedi eu gohirio ac wedi disgyn yn ôl ers y flwyddyn cynt oherwydd ffactorau fel cau tymhorol.

| **Proffil yr Eiddo (Categorïau Risg A-E)** | **Amcangyfrif Nifer yr Eiddo (fel ar 01/04/09)** | **Amcangyfrif nifer yr arolygiadau cyntaf sydd eu hangen yn ystod y flwyddyn (01/04/09 - 31/03/10)** |
|---|---|---|
| Categori A | 35 | 34 |
| Categori B | 226 | 226 |
| Categori C | 1080 | 786 |
| Categori D | 233 | 122 |
| Categori E* | 372 | 267 |
| Tu allan ir Rhaglen | 9 | 9 |
| Heb eu graddio | 63 | 63 |
| **CYFANSWM** | **2018** | **1488** |

Y targed y 2009/10 o fewn y cynllun busnes yw bod 95% o’r ymyrraethau risg uchel (A-C) yn cael eu cwblhau.

* Bydd strategaethau gorfodi eraill yn cael eu hystyried ar gyfer rhan fwyaf o’r eiddo

bwyd risg isel hyn yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd (Cymru) 2008. Bydd hyn yn golygu ymweliad fel rhan o bwrpas arall yn cael ei ymgymryd gan yr adain Bwyd a Iechyd a Diogelwch, adain Safonau Masnach neu arolwg holiadur i asesu peryglon a risgiau mewn perthynas a'r busnesau. Ble mae risgiau yn cael eu canfod i fod yn isel fe fydd pecynnau gwybodaeth yn cael eu gyrru allan i fusnesau i roi cymorth iddynt gydymffurfio efo deddfwriaeth diogelwch bwyd ac ymarfer da. Ble mae deallusrwydd drwy gwynion neu samplo rheolaidd, yn awgrymu efallai fod problem yn bodoli, fe fydd yr eiddo yma yn cael eu archwilio.

### 4.1.2 Ailymweliadau

Fe fydd ailymweld yn cael eu ymgymryd ble mae pryder am ddiogelwch bwyd. Rhagwelir bydd ailymweld yn cael eu hymgymryd i rhan fwyaf o eiddo wedi eu graddio yn risg uchel, categori A a B.

### 4.1.3 Ymyrraethau Safonau Bwyd

Polisi'r adain diogelwch bwyd yw i flaenoriaethu ymyriaethau eiddo bwyd mewn perthynas a Safonau Bwyd mewn cytundeb a risgiau diogelwch bwyd yn yr eiddo. Mae hyn yn cael ei asesu drwy gysidro natur triniaeth y bwyd, y safonau sydd yn cael eu cynnal ar safon y rheoli yn dilyn proses asesu risg argymhylliedig. Mae'r adain yn ddiweddar wedi newid o ddefnyddio cynllun Asesiad Risg LACORS "gweithrediad busnes cyflawn" i gynllun sbesiffig Safonau Bwyd sydd yn rhan o God Ymarfer Cyfraith Bwyd (Cymru) 2008 ac ar hyn o bryd yn ail-asesu graddfa Risg i fusnesau oherwydd Risg Safonau Bwyd.

Polisi'r adain diogelwch bwyd yw i gynnal ymchwiliadau Safonau Bwyd wedi eu rhaglenni mewn perthynas ac eiddo Categori A (Risg Uchel) mewn cytundeb a amlder lleiafrif ymchwiliadau sydd wedi ei nodi yn Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd (Cymru) 2008 e.e. pob 12 mis.

Oherwydd diffyg adnoddau, polisi'r adain diogelwch bwyd yw i beidio cynnal archwiliadau Safonau Bwyd sydd wedi eu rhaglenni mewn perthynas ac eiddo Categori B (Risg Canolig) mewn cytundeb a amlder lleiafrif ymchwiliadau sydd wedi ei nodi yn Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd (Cymru) 2008 e.e. pob 24 mis. Polisi'r awdurdod yw fod eiddo o'r fath yn cael ei ymchwilio o fewn hanner yr amlder nodwyd e.e. pob 48 mis. Yn ymarferol, disgwylir rhagori lefel ypberfformiad yma.

Oherwydd diffyg adnoddau, polisi'r adain diogelwch bwyd yw i beidio cynnal ymyrraethau Safonau Bwyd sydd wedi eu rhaglenni mewn perthynas ac eiddo Categori C (Risg Isel) fel rhan o reolwaith. Er hynny, oherwydd yr angen i adolygu asesiadau risg busnesau sydd wedi eu categoreiddio yn C, mae'r eiddo yn cael ymyrraeth pryd y mae'n berthnasol i ymweld a'r eiddo mewn perthynas a ymyrraethau sydd yn cael eu cario allan oherwydd gweithgareddau gorfodaeth eraill. Mae ystyriaeth yn cael ei roi i weithredu strategaethau gorfodaeth eraill mewn eiddo o'r math pan mae adnoddau yn caniatáu.

Mae'r tabl isod yn dangos yr ymyrraethau sydd angen cael eu cario allan yn 2009/10 mewn perthynas a'r lleiafrif o ymyrraethau sydd wedi ei nodi yn Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd (Cymru) 2008.

| Proffil yr Eiddo: Safonau Bwyd (Categori A-C) | Amcangyfrif Nifer yr Eiddo (fel ar 01/04/09) | Amcangyfrif nifer yr ymyrraethau cyntaf sydd eu hangen yn ystod y flwyddyn (01/04/09 - 31/03/10) |
|---|---|---|
| Categori A | 15 | 14 |
| Categori B | 778 | 469 |
| Categori C | 1107 | 206 |
| Tu allan ir rhaglen | 30 | - |
| Heb eu graddio | 88 | 60 |
| **CYFANSWM** | **2018** | **749** |

### 4.2 Cwynion ynghylch Bwyd

Ymchwilir i mewn i'r holl gwynion ynghylch bwyd. Polisi'r adain diogelwch bwyd yw rhoi ymateb cyntaf o fewn 5 diwrnod gwaith i'r holl gwynion ynghylch bwyd ac eiddo bwyd. Mae'r adain yn derbyn tua 100 o gwynion y flwyddyn yng nghyswllt bwydydd ac eiddo bwyd.

Amcangyfrifir y bydd 105 o gwynion ynghylch bwyd yn 09/10.

### 4.3 Cyngor i Fusnesau

Mae'r adain diogelwch bwyd yn cynnig cyngor i unrhyw fusnes sydd ag eiddo masnachu yng Ngwynedd oni bai fod gan y masnachwr drefniant Awdurdod Cartref gydag awdurdod lleol arall. Gwneir hyn drwy ddarparu cyngor yn uniongyrchol i fusnesau a thrwy ddarparu cyrsiau hyfforddiant sy'n cael eu cynnal yn lleol e.e. cyrsiau hyfforddiant SFBB.

Amcangyfrifir y bydd o leiaf 2 gwrs hyfforddiant yn cael eu cynnal yn 09/10 yn ddibynol ar adnoddau.

Mae'r adain diogelwch bwyd yn datblygu ei thudalennau ar y we yn barhaus er mwyn gwella, yn benodol, y mynediad at gyngor diogelwch bwyd arbenigol.

### 4.4 Samplo ac Arolygu Bwyd

Mae'r adain diogelwch bwyd yn ymgymryd â samplo bwyd a diod sy'n cael eu cyflenwi, eu cynhyrchu a'u gwerthu yn y Sir, yn unol â rhaglen samplo sydd wedi'i chynllunio er mwyn asesu eu diogelwch a'u hansawdd a ble bo angen, mewn ymateb i gwynion/ymchwiliadau ynghylch bwyd. Bydd yr adain diogelwch bwyd hefyd yn cymryd rhan mewn rhaglenni samplo Gogledd Cymru, y DU ac Ewropeaidd ble bo hynny'n berthnasol. Mae polisi samplo hylendid bwyd Cyngor Gwynedd 2009/10 yn darparu mwy o wybodaeth dwfn ynglŷn a samplo bwyd ac y mae ar gael ar dudalen we yr adain diogelwch bwyd. Mae cynllun samplo manwl hefyd wedi ei ddarparu ar gyfer 2009/10 sydd yn rhoi manylion o'r math o fwyd fydd yn cael eu samplo.

Fe fydd lleiafrif o 180 sampl bwyd rheolaidd yn cael eu cymeryd yn 2009/10.

Mae'r adain diogelwch bwyd yn ymgymryd â samplo rheolaidd o ardaloedd cynaeafu pysgod cregyn er mwyn monitro statws hylendid yr ardaloedd cynaeafu pysgod cregyn. Defnyddir data a geir o'r samplo wrth gynnal statws dosbarthiad yr

ardaloedd cynaeafu pysgod cregyn.

Bydd samplau bwyd yn cael eu dadansoddi gan y Gwasanaeth Labordy Iechyd Cyhoeddus (PHLS) sydd wedi'i leoli yn Ysbyty Gwynedd, Bangor; y Dadansoddwr Cyhoeddus, (Labordai Gwyddonol Eurofins) ym Mhenbedw a defnyddir labordai Canolfan yr Amgylchedd, Pysgodfeydd a Gwyddor Acwafeithrin (CEFAS) yn achlysurol.

### 4.5 Rheoli Ymchwiliadau i mewn i Achosion Brig ac Afiechydon Heintus sy'n Gysylltiedig â Bwyd.

Mae'r adain diogelwch bwyd yn ymchwilio i mewn i'r holl achosion brig a hysbysiadau o afiechydon sy'n gysylltiedig â bwyd yn unol â threfnau a chyngor derbyniol gan ei Swyddog Priodol.

Rhwng yr NPHSW a'r adain diogelwch bwyd, mae trefniadau ffurfiol yn eu lle i adnabod achosion o wenwyn bwyd ac ymchwilio i mewn iddynt. Mae'r holl achosion o wenwyn bwyd sydd wedi'u hadnabod gan labordy yn cael eu hysbysu'n uniongyrchol i'r adain diogelwch bwyd er mwyn iddynt ymchwilio i mewn i'r mater.

Ymchwilir i mewn i bob digwyddiad o wenwyn bwyd neu honiad o wenwyn bwyd gyda'r bwriad o olrhain y ffynhonnell ac osgoi ei ledaenu ac osgoi iddo ddigwydd eto.

Amcangyfrifir y bydd 218 o achosion gwenwyn bwyd a 1 o achosion brig posib yn 2009/10.

### 4.6 Digwyddiadau Diogelwch Bwyd

O bryd iw gilydd y maer FSA yn datgan digwyddiadau diogelwch bwyd ac yn gwybyddu awdurdodau bwyd o rhain yn electronig ar ffurf e bost a/new rhybydd testyn. Y mae rhai or digwyddiadau hyn ar gyfer gwybodaeth ac eraill ar gyfer gweithred.

Y mae gan yr adain weithdref ddogfenedig i ddelio a rhybyddion digwyddiadau diogelwch bwyd yn dilyn derbyn gwybyddiad drwyr system rhydyddion diogelwch bwyd ac rhybyddion alergedd.

Amcangyfrifir y bydd 72 o rybuddion bwyd/ alergedd yn cael eu derbyn yn 09/10.

### 4.7 Cyswllt gyda Sefydliadau Eraill

Mae'r adain diogelwch bwyd yn cysylltu â'r grwpiau cyswllt neu'r sefydliadau sy'n ymwneud â materion diogelwch bwyd isod mewn ymdrech i sicrhau bod y gwasanaeth a/neu unrhyw gamau gorfodi a gymerir o fewn Sir Gwynedd yn gyson â'r rheini mewn awdurdodau lleol cyfagos, y gellir adnabod gwelliannau i wasanaethau ac y gellir cael mynediad at hyfforddiant yn seiliedig ar gymhwysedd.

- Cyfarwyddwyr Gwarchod y Cyhoedd Cymru (DPPW)
- Grŵp Penaethiaid Iechyd yr Amgylchedd Cymru (WHoEH)
- Grŵp Penaethiaid Safonau Masnach (WHoTS)
- Panel Technegol Diogelwch Bwyd Gogledd Cymru (NWFSTP)
- Grŵp Bwyd a Metroleg Penaethiaid Safonau Masnach Gogledd Cymru

- Fforwm Microbiolegol Bwyd Cymru (WFMF)
- Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol Cymru (NPHSW)
- Grŵp Cyswllt Pysgod Cregyn Gogledd Cymru a Glannau Dyfrdwy (NWDSLG)
- Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru (CSIW)
- Canolfan yr Amgylchedd, Pysgodfeydd a Gwyddor Acwafeithrin (CEFAS)
- Dŵr Cymru (WW)
- Cydlynwyr Awdurdodau Lleol ar Wasanaethau Rheoli (LACORS)
- Asiantaeth Safonau Cig (FSA)
- Gwasanaeth Hylendid Bwyd (MHS)
- Uned Twyll Bwyd Cymru (WFFU)
- Adain Trwyddedu Gwynedd (GLS)

### 4.8 Hyrwyddo Diogelwch Bwyd

Mae'r adain diogelwch bwyd yn ymgymryd ag ymarferion hyrwyddo iechyd sy'n cynnwys diogelwch a hylendid bwyd. Mae hyn yn cynnwys darparu hyfforddiant dadansoddi peryglon, gwobrau hylendid bwyd ac ymgymryd â gweithgareddau yn ystod yr wythnos diogelwch bwyd genedlaethol. Fe fydd yr adain diogelwch bwyd yn cymeryd rhan yn wythnos diogelwch bwyd 2009.

### 4.9 Hyfforddiant Diogelwch Bwyd i Swyddogion

Mae rhaglen hyfforddi staff yn cael ei pharatoi ar gyfer 2009/10. Mae anghenion hyfforddiant staff yn cael eu hadnabod yn ystod y broses werthuso ac mae rhaglen hyfforddi yn cael ei datblygu unwaith y mae'r broses hon yn gyflawn.

Polisi'r adain diogelwch bwyd yw cydymffurfio'n llwyr â gofynion Côd Ymarfer Cyfraith Bwyd (Cymru) 2008 mewn perthynas â hyfforddiant i staff a chymwysterau swyddogion awdurdodedig. Mae hyn yn ei gwneud hi'n ofynnol bod swyddogion sydd wedi'u hyfforddi'n briodol ac sy'n brofiadol yn ymgymryd â gwaith diogelwch bwyd. Golyga hyn ei bod hi'n angenrheidiol cael mynediad at hyfforddiant allanol ar bynciau arbenigol, wedi'u hategu gan hyfforddiant diweddaru mewnol rheolaidd ar gyfer swyddogion diogelwch bwyd awdurdodedig.

Polisi'r adain diogelwch bwyd yw sicrhau bod swyddogion sydd ynghlwm â gorfodi deddfwriaeth diogelwch bwyd yn derbyn o leiaf 15 awr o hyfforddiant datblygiad proffesiynol parhaus.

### 4.10 Camau Gweithredu Ffurfiol Diogelwch Bwyd

Ymgymerir â'r holl gamau gorfodi gan ystyried y Polisi Gorfodi Gwarchod y Cyhoedd. Gall hyn amrywio o gamau gweithredu anffurfiol hyd at wasanaeth gwella hylendid ffurfiol neu rybuddion gwahardd brys neu yn y pen draw faterion rhybuddion neu argymhellion ar gyfer erlyn. Y prif nod yw sicrhau bod yr holl fusnesau bwyd yng Ngwynedd yn darparu bwyd sy'n ddiogel i'w fwyta a'u bod yn cydymffurfio â gofynion y ddeddfwriaeth diogelwch bwyd. Gellir cael mynediad at y polisi gorfodi hwn drwy wefan y Cyngor.

### 4.11 *Safer Food Better Business* (SFBB)

Er mwyn cynorthwyo perchnogion busnesau bwyd i fodloni'r gofynion cyfreithiol newydd a ddaeth i rym ym mis Ionawr 2006, mae'r FSA wedi cyflwyno system rheoli

diogelwch bwyd symlach, SFBB, y maent yn awgrymu y dylai gael ei hyrwyddo i fusnesau bwyd sydd angen cymorth gyda gofynion dadansoddi peryglon.

Yn 2009/10 byddwn yn parhau i hyrwyddo ymgymryd â'r model rheoli diogelwch bwyd hwn yng Ngwynedd ble yn briodol a ble fydd adnoddau yn caniatáu parhau i gynnal seminar hyfforddiant.

### 4.12 Busnesau Newydd

Fe fydd pob busnes bwyd newydd yng Ngwynedd yn cael ymweliad ymyrraeth a bydd darpariaeth o gyngor a chanllawiau ar gael i sicrhau fod y busnesau yma yn gweithredu hyd at deddfwriaeth diogelu bwyd o'r cychwyn.

Yn 2009/10 fe fydd yr adain yn parhau i ymweld a busnesau newydd, ymgymryd a ymyrraethau a darparu cyngor a chanllawiau i bob busnes newydd.

# 5.0 Adnoddau

## 5.1 Dyraniad Ariannol

£662,240 yw cyfanswm cost gros yr adain diogelwch bwyd, ac y mae costau staffio yn cyfrif am tua 80% o'r cyfanswm. Mae cyfanswm cost gros yr adain diogelwch bwyd yn seiliedig ar amcangyfrifon poblogaeth ganol blwyddyn 2005 yn cyfrifo fel tua £5.61 fesul trigolyn yng Ngwynedd.

## 5.2 Lefelau Staffio Cyfredol

Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad mae 14.3 o swyddogion cyfwerth ag amser llawn (FTE) yn yr adain diogelwch bwyd. Gellir torri'r ffigwr uchod i lawr i swyddogion fel y manylir isod:

| | **Nifer** |
|---|---|
| Swyddogion Iechyd yr Amgylchedd/Safonau Masnach | 5.0/1.1 |
| Swyddogion Diogelwch Bwyd/Gorfodaeth | 4.3/1.2 |
| Swyddogion Samplo Bwyd | 1/1.0 |
| Rheolwr Gwarchod y Cyhoedd (Bwyd ac IaD)/(S.M.) | 0.5/0.2 |
| **CYFANSWM (FH/FS)** | **10.8/3.5** |
| **PRIF GYFANSWM** | **14.3** |

## 6.0 Asesu Ansawdd

Mae'r adain diogelwch bwyd wedi cael ei harchwilio gan yr FSA a bydd yn parhau i weithredu ar unrhyw gyngor a roddir i sicrhau y darperir gwasanaeth o ansawdd. Ceir proses fonitro fewnol er mwyn sicrhau bod swyddogion yn dilyn y gweithdrefnau ac yn gweithredu yn unol â gofynion statudol.

# 7.0 Adolygu a Monitro

## 7.1 Adolygu yn Erbyn y Cynllun Gwasanaeth

Bydd y cynllun cyflwyno gwasanaeth yn cael ei adolygu o leiaf bob blwyddyn ac adroddir ar hyn i'r pwyllgor trwyddedu. Bydd yr adolygiad yn cysylltu i mewn i'r broses cynllunio busnes blynyddol.

Monitrir perfformiad yn fisol gydag adolygiad rheolaethol chwarterol o'r cynnydd.

Monitrir perfformiad gan ddefnyddio'r dulliau a ganlyn:

- Monitro perfformiad yn erbyn targedau'r gwasanaeth a'r swyddogion.

- Monitro arferion gweithio gwirioneddol yn erbyn trefnau a phrotocolau ar gyfer
    - Ymyrraeth busnesau bwyd.
    - Ymchwilio i mewn i gwynion a hysbysiadau o wenwyn bwyd.
    - Gorfodaeth.

- Ymgymryd ag arolygon boddhad cwsmer ar gyfer meysydd perthnasol o'r adain diogelwch bwyd. Roedd lefel perfformiad 08/09 (ar y 06/04/09) yn 97.5 % ar gyfer Hylendid Bwyd a 93% ar gyfer Safonau Bwyd.

<u>Trefniadau Monitro: Hylendid Bwyd.</u>

Ymgymerir â monitro perfformiad drwy gynhyrchu adroddiadau misol o'r bas data FLARE ar:

- Ymyrraethau yn cael eu hymgymryd wedi cymharu â'r rhai sydd ar y rhestr agored.
- Cofnodion ymyrraethau ar gyfer pob swyddog ynghyd a phroffiliau risg o bob ymyrraeth sydd wedi ei gwblhau.
- Cwynion ble does dim ymateb wedi ei wneud.
- Cwynion sydd yn parhau i fod yn agored.
- Achosion cyfreithiol sydd ar waith.
- Canlyniadau samplo bwyd gwael efo dim gweithred dilyn i fyny.
- Rhybuddion sydd heb eu gwneud.

Bydd arferion gwaith yn cael eu monitro'n rheolaidd drwy gyswllt agos rhwng y swyddogion diogelwch bwyd a'r Rheolwr Gwarchod y Cyhoedd a thrwy:

- Gyflwyno adroddiadau ymyrraeth yn cynnwys copïau o lythyrau i'r Rheolwr.

  Gwarchod y Cyhoedd er mwyn craffu, o leiaf 2%.

- Craffu o leiaf 2% o ffeiliau hysbysiadau cwynion/ ceisiadau gwasanaeth/ samplo, gwenwyn bwyd a rhybuddion peryglon bwyd.

- Cyfeirio materion cynhennus a gorfodi ffurfiol i'r Rheolwr Gwarchod y Cyhoedd / Uwch Reolwr Gwarchod y Cyhoedd am gadarnhad o'r camau gweithredu fydd yn cael eu cymryd.

- O leiaf un ymyrraeth hylendid bwyd ar y cyd blynyddol rhwng Swyddogion Diogelwch Bwyd ac o leiaf un ymyrraeth monitro blynyddol rhwng y Rheolwr Gwarchod y Cyhoedd a phob un Swyddog Diogelwch Bwyd.

Trefniadau Monitro: Safonau Bwyd

Fe fydd y Rheolwr Gwarchod y Cyhoedd yn monitro perfformiad drwy gynhyrchu adroddiad bob 3 mis o fas data FLARE mewn perthynas â

- Archwiliadau a gymharir yn erbyn y rhaglen flynyddol.
- Ceisiadau am wasanaeth a ddefnyddir i fonitro cynnydd.

Fe fydd arferion gwaith yn cael eu monitro yn rheolaidd drwy gyswllt agos rhwng yr holl staff sydd yn ymgymryd â gorfodaeth Safonau Bwyd a'r Rheolwr Gwarchod y Cyhoedd (Safonau Masnach).

Yn ogystal fe fydd Uwch Swyddogion Safonau Masnach yn monitro arferion gwaith y staff oddi fewn i'w Timau drwy:

- Craffu o leiaf 2% o adroddiadau ymyrraeth.
- Craffu o leiaf 2% o ffeiliau cwynion / ceisiadau am wasanaeth / samplo a rhybuddion peryglon bwyd.
- Cynnal o leiaf un archwiliad monitro blynyddol ar gyfer pob aelod o staff.

Fe all yr Uwch Swyddogion Safonau Masnach ddirprwyo'r ddyletswydd hon i'r Swyddog Safonau Masnach mewn perthynas â monitro arferion gwaith Swyddogion Technegol. Fe fydd yr Uwch Swyddogion Safonau Masnach hefyd yn monitro gwaith ei gilydd.

Fe fydd pob mater cynhennus a gorfodaeth ffurfiol yn cael ei gyfeirio at y Rheolwr Gwarchod y Cyhoedd ( Safonau Masnach) / Uwch Reolwr Gwarchod y Cyhoedd er mwyn cadarnhau'r math o weithrediad a gymerir.

Ar ddiwedd cyfnod y cynllun gwasanaeth bydd yr adain diogelwch bwyd yn cymharu perfformiad targedau'r flwyddyn â pherfformiad safonau'r cynllun gwasanaeth hwn. Bydd unrhyw amrywiad a'r rhesymau am yr amrywiad yn cael eu cynnwys yn yr adolygiad a bydd unrhyw ddatblygiad neu welliant i'r gwasanaeth yn cael eu nodi fel bo angen.

## 7.2 Cyflawniadau Allweddol y Gwasanaeth 2008/09

Yn ogystal â gwaith rheolaidd, mae cynnydd sylweddol wedi'i wneud yng nghyswllt gwelliannau cyffredinol i'r gwasanaeth. Mae cyflawniadau'r gwasanaeth dros gyfnod cynllun y llynedd yn cynnwys: -

- Lefel arolygu eiddo risg uchel ar gyfer hylendid bwyd wedi cynyddu o 94% i 97%.
- Pum diwrnod hyfforddiant SFBB wedi eu cynnal.
- Datblygiad parhaus tudalennau gwe'r adain diogelwch bwyd.
- Dau erlyniad llwyddiannus o fusnesau bwyd wedi eu hymgymryd ar droseddau hylendid bwyd.

### 7.3 Meysydd i'w Gwella 2009/10

Mae'r meysydd datblygu gwasanaeth a ganlyn wedi'u hadnabod ar gyfer 2009/10:-

- Ceisio gwella lefel ymyriadau hylendid bwyd eiddo risg uchel i 100%.
- Cyfuno'r cynnydd sydd wedi'i wneud mewn busnesau bwyd yn dilyn cwblhau'r prosiect SFBB yn llwyddiannus.
- Cyflwyno cynllun "Sgoriau ar Ddrysau" ar gyfer eiddo bwyd o fewn Gwynedd a mabwysiadu cynllun y FSA.
- Ymgymryd ag arolwg boddhad cwsmer ar gyfer meysydd gwasanaeth bwyd perthnasol.